Hybu Cig Cymru
Meat Promotion Wales


# Bwletin y Farchnad HCC

Gorffennaf 2019

Rhagwelir y bydd cyfanswm gwerth  cynnyrch amaethyddol cyfun Cymru yn cynyddu 5.0% i £1,677 miliwn ar gyfer 2018, ac y bydd incwm ffermydd yng Nghymru ar gyfer 2018/19 yn amrywio'n fawr dros y flwyddyn, gan ddibynnu ar y math o fferm. Bydd Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych yn fanylach ar y datganiadau ystadegol hyn.

## Cynnyrch ac incwm amaethyddol cyfun, 2018

Cyhoeddwyd yr adroddiad ystadegol 'Allbwn ac incwm amaethyddol cyfun' gan Lywodraeth Cymru yn ystod mis Ebrill eleni. Rhagwelir y bydd cyfanswm gwerth yr allbwn amaethyddol cyfun yng Nghymru ar gyfer 2018 yn £1,677 miliwn, sef  5.0% (£84 miliwn) yn uwch na'r ffigur amodol ar gyfer 2017.




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru 2019

Gwerth cyfunol cynnyrch defaid a gwartheg yw'r gyfran uchaf o gynnyrch amaethyddol Cymru, sef 41%, ac mae hyn yn dangos pwysigrwydd cynhyrchu cig coch i'r sector amaethyddol yng Nghymru. Rhagwelir y bydd gwerthoedd y cynnyrch o werthiannau gwartheg (cig eidion a llaeth) yn gostwng ychydig, sef £3 miliwn (neu 1%) i £404 miliwn  mewn cymhariaeth â'r cyfnod cyfatebol y flwyddyn flaenorol. Amcangyfrifir y bydd gwerth cynnyrch y sector defaid yn cynyddu 7% (£14 miliwn) i £278 miliwn. Rhagwelir y bydd cynnyrch y sector defaid yn uwch nag oedd yn 2017, er gwaethaf y tywydd anffafriol a gafwyd yn ystod y cyfnod wyna a phesgi yn 2018. Y prif reswm am y cynnydd yw'r gwelliant ym mhrisiau'r farchnad, yn enwedig yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn. Felly, mae gwartheg a defaid gyda'i gilydd yn cyfrif am gyfanswm o £682 miliwn o gynnyrch amaethyddol Cymru. Mae disgwyl i werth cynnyrch amaethyddol y sector moch aros yr un fath â 2017, sef  £6 miliwn, er bod prisiau'r farchnad yn is na'r flwyddyn flaenorol drwy gydol 2018.


## Rhagolygon incwm ffermydd yng Nghymru, 2018/19


Cafwyd cyhoeddiad ystadegol arall, '*Rhagolygon incwm ffermydd yng Nghymru, 2018-19*' gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai. Er y gallai'r ffigurau (fel gyda'r holl fathau hyn o ddatganiadau)  gael eu diwygio, rhoddant syniad o dueddiadau hirdymor incwm ffermydd yng Nghymru.

**Incwm busnes cyfartalog ffermydd (*pob math o fferm*) = £29,500 y fferm**

Rhagwelir y bydd incwm busnes cyfartalog fferm wartheg a defaid mewn ardaloedd llai ffafriol (LFA) yn gostwng 9% i £24,500 y fferm ar gyfer 2018-19 – yn ôl y prisiau cyfredol. Rhagwelir y bydd costau mewnbwn y ffermydd hyn yn uwch nag yn 2017 gan fod costau fel porthiant wedi codi ychydig. Disgwylir gostyngiad bach yng ngwerth cig defaid o'i gymharu â blwyddyn yn gynharach, ond disgwylir i werth cynnyrch cig eidion fod yn uwch.  Fel arfer, mae taliadau cymorth fel y Cynllun Taliad Sylfaenol (BPS) a thaliadau amaeth-amgylcheddol yn cael mwy o effaith yn gyffredinol ar incwm y math hwn o fferm.

Yr incwm a ragwelir ar gyfer fferm wartheg a defaid ar dir isel yng Nghymru yw £17,000 ar gyfer 2018-19, sef gostyngiad o 29.0% (neu £7,000) mewn cymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol. Disgwylir i incwm fferm o'r fath fod yn is oherwydd y tywydd anodd y llynedd, a olygodd ostyngiad yn niferoedd y da byw. Roedd prisiau'r farchnad ar ddiwedd y llynedd yn adlewyrchu'r newid hwn yng ngwerth da byw. O ganlyniad, rhagwelir y bydd y cynnyrch o ddefaid a chig eidion yn is yn 2018-19. Yr un fath â'r ffermydd LFA, rhagwelir y bydd costau mewnbwn wedi codi. Yn dilyn gostyngiad ym mhrisiau llaeth yn ystod 2018, rhagwelir y bydd yr incwm ar gyfer ffermydd llaeth yng Nghymru yn gostwng i £64,500 yn 2018-19 (23% yn llai na'r flwyddyn flaenorol),  ond bydd yr amrywiad mawr ym mhrisiau llaeth yn dylanwadu ar ffigurau ffermydd unigol.









## GWARTHEG

Roedd y pris cyfartalog ar gyfer gwartheg dethol yng Nghymru a Lloegr yn 180.6c/kg ar gyfer yr wythnos ddiweddaraf a ddaeth i ben ar 29 Mehefin, sef 1.2c yn fwy nag yn yr wythnos flaenorol, ond 12.9c yn is nag yn y flwyddyn flaenorol. Mae prisiau pwysau byw wedi tueddu i fod yn is nag oeddent yn 2018 ers dechrau'r flwyddyn, ac wedi gostwng o dan y cyfartaledd pum-mlynedd yn ystod mis Mehefin. Yn ystod yr wythnos a ddaeth i ben ar 22 Mehefin, gostyngodd y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer pob categori o wartheg dethol. Roedd y gostyngiad mwyaf, sef 4.9c i 333.1c/kg, ar gyfer heffrod. Cafodd gostyngiad o 4.2c i 330.4c/kg ar gyfer bustych, a gostyngiad o 3.4c i 317.7c/kg. ar gyfer teirw ifainc. Gostwng hefyd fu hanes prisiau buchod difa, ond i raddau llai. Roedd y pris yn 104.1c/kg yn yr wythnos yn diweddu 22 Mehefin (4.5c yn is).

Cyfanswm y gwartheg a laddwyd yn lladd-dai'r DG ym mis Mai 2019 oedd 225,300. Mae hyn yn 8.0% yn uwch nag yn y mis blaenorol, ac yn 1.0% yn uwch nag yn y mis cyfatebol y llynedd. Roedd cyfanswm y cynnyrch cig eidion a chig llo ar gyfer y mis yn uwch nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd, yn dilyn cynnydd yn y trwybwn a chynnydd ym mhwysau cyfartalog carcasau gwartheg (+5.4kg o'r naill flwyddyn i'r llall, i 357.0kg). Byddai'r cynnydd hwn yn y cyflenwad, ynghyd â llai o alw, wedi cyfrannu'n sylweddol at y gostyngiad diweddar ym mhrisiau cig eidion i'r cynhyrchwyr.









## DEFAID

Yn dilyn gostyngiad diweddar yn y Dyfynbris Ansawdd Safonol (SQQ) pwysau byw cyfartalog ym marchnadoedd da byw Cymru, yn ystod yr wythnos yn diweddu 29 Mehefin gwelwyd gostyngiad i 198.2p/kg (0.5c yn is). Er bod prisiau wedi tueddu i fod yn is na blwyddyn yn gynharach yn ystod y misoedd diwethaf, mae prisiau pwysau byw wedi bod tua'r un fath â'r cyfartaledd pum-mlynedd ers dechrau'r flwyddyn. Y cyfartaledd pum-mlynedd o 2013 i 2018 yw 197.2c/kg. Y prisiau ar gyfer mamogiaid difa mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru yn yr wythnos ddiweddaraf, yn diweddu 29 Mehefin, oedd £58.20 yr un - sef £4.40 yn llai nag yn yr wythnos flaenorol a £2.30 yn llai nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd. Roedd prisiau pwysau marw ym Mhrydain yn 451.6c/kg yn yr wythnos yn diweddu 22 Mehefin, sef 73c yn is nag oeddent flwyddyn yn gynharach.

Cafodd 1.1 miliwn o ddefaid eu lladd yn lladd-dai'r DG ym mis Mai, sef 8.8% yn llai nag ym mis Ebrill, ond 8.2% yn fwy nag yn y mis cyfatebol flwyddyn yn gynharach. Ŵyn dethol oedd 85% o'r holl drwybwn yn ystod y mis, a hyn oedd i gyfrif am y cynnydd o'r naill flwyddyn i'r llall. Mae adroddiadau gan y diwydiant yn awgrymu fod y trwybwn hyd yma eleni yn uwch, ac mae mwy o ŵyn tymor newydd ar gael yn gynharach na'r llynedd.




## MOCH

Roedd prisiau'r holl foch pwysau marw (manyleb yr UE) ym Mhrydain yn 151.6c/kg yn yr wythnos yn diweddu 15 Mehefin. Yn dilyn tuedd i gynyddu ers mis Ebrill, mae hyn yn 0.9c yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol. Mae'r bwlch yn y pris rhwng eleni a'r llynedd wedi bod yn lleihau yn ystod yr wythnosau diwethaf, ac mae'r ffigur diweddaraf yn 1.3c yn is nag oedd yn yr wythnos gyfatebol yn 2018. Y pris cyfartalog am berchyll 30kg ym Mhrydain yn yr wythnos yn diweddu 15 Mehefin oedd £50.74 yr un, sef 2.2% yn is nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd. Yn yr un modd, roedd y pris cyfartalog am berchyll 7kg yn 3.8% yn is nag yn y flwyddyn flaenorol, sef £36.71 yr un, a gwelwyd gostyngiad o 0.5c mewn wythnos.

Roedd nifer yr holl foch a laddwyd yn lladd-dai'r DG yn 875,500 ym mis Mai, sef 3.1% yn fwy nag ym mis Ebrill, ac 1.6% yn fwy nag yn y flwyddyn flaenorol. Lladdwyd 913,800 o foch heb fagu yn lladd-dai'r DG ym mis Mai, sef 2.8% yn fwy nag yn y mis blaenorol. Am y cafodd mwy o foch eu lladd, cynhyrchwyd mwy o borc nag yn y mis blaenorol, sef 2,100 tunnell (neu 2. 7%) yn fwy.